# Bwrdd Cynghori Cenedlaethol AGC – 6 Gorffennaf 2023

**Agenda**

| | |
|---|---|
| Croeso ac Ymddiheuriadau | Cadeirydd |
| Rôl "Llais" Corff Llais y Dinesydd (CVB) mewn gofal Cymdeithasol | Ben Eaton, Llais |
| Cynllun cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar y cyd AGC/AGIC | Margaret Rooney |
| Dogfen defnydd iaith AGC | Gillian Baranski |
| EGWYL | |
| Lleisiau aelodau'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol | Pawb |
| Cynllun Strategol 2020-2025 – adolygu cynnydd yn erbyn y camau gweithredu | Gillian Baranski |
| Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth – eich barn? | Sarah Glynn-Jones |
| Sylwadau i gau | Cadeirydd |
| Gorffen | |

**Cyfarfodydd I ddod:**

- Dydd Mercher, 4 Hydref 2023
- Dydd Mercher, 7 Chwefror 2024

# Bwrdd Cynghori Cenedlaethol AGC – cofnodion cyfarfod

## Croeso ac ymddiheuriadau

Y sawl a oedd yn bresennol

- Ruth Hussey
- Orlaith Brennan
- Stuart Davies
- Ben Eaton (siaradwr gwadd)
- Rachel Harris
- Peter Max
- Claire Protheroe
- Mary Wimbury

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

Cynrychiolwyr AGC

- Gillian Baranski
- Kelsey Evans
- Sarah Glynn-Jones
- Emma Mackintosh
- Myfanwy Moran
- Richard Payne
- Margaret Rooney

Ymddiheuriadau

- Valerie Billingham
- Melanie Davies
- Natalie Fletcher
- Carole Jones
- Bethan Louise Kay
- Julia Nawell
- Vicky Poole
- Jenny Williams

**Penderfyniad**: Cymeradwyodd aelodau'r Bwrdd y cofnodion o 25 Hydref 2022

## Camau gweithredu o'r cofnodion blaenorol – 8 Chwefror 2023:

**Cam gweithredu blaenorol:** Yr Ysgrifenyddiaeth i gysylltu ag aelodau am unrhyw broffiliau coll ar gyfer y wefan. **Wedi'i gwblhau.**

**Cam gweithredu newydd:** Golygu'r cofnodion – nid oedd Myfanwy Moran yn bresennol yn y cyfarfod ar 8 Chwefror.

**Cam gweithredu newydd:** Yr Ysgrifenyddiaeth i gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn a Swyddfa'r Comisiynydd Plant i gadarnhau manylion cyswllt y cynrychiolwyr cyfredol.

**Penderfyniad:** Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod ar 8 Chwefror 2023. **Cytunwyd** y gellid eu cyhoeddi ar wefan AGC.

## Rôl "Llais", Corff Llais y Dinesydd, ym maes gofal cymdeithasol

Darparodd Ben Eaton, Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth ac Ymgysylltu Sefydliadol yn Llais drosolwg o'r corff newydd, sy'n disodli'r cynghorau iechyd cymuned (CICau) yng Nghymru. Dywedodd Ben fod y corff yn awyddus i sicrhau bod trefniadau cyfathrebu parhaus ar waith â'r byrddau iechyd, nid dim ond pan fydd pethau'n mynd o chwith.

Cyfeiriodd y Cadeirydd, Ruth Hussey at adolygiad 2018 ar gyfer Llywodraeth Cymru ar iechyd a gofal cymdeithasol a gadeiriwyd ganddi, a dynnodd sylw at bwysigrwydd cynnwys pobl wrth ddylunio gwasanaethau.

Eglurodd Mary Wimbury (Fforwm Gofal Cymru) pa mor anodd ydyw i ddarparwyr gofal ar hyn o bryd a gofynnodd sut roedd Llais yn bwriadu ymgysylltu â darparwyr gofal cymdeithasol cofrestredig. Eglurodd Ben y bydd strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer Llais, ac y bydd y corff yn rhoi blaenoriaeth uchel i'r sector gofal cymdeithasol a darparwyr, ac y byddent yn siarad ag awdurdodau lleol yn gyntaf.

Dywedodd Margaret Rooney (Dirprwy Brif Arolygydd, AGC) ei bod yn bwysig i AGC gydweithio â Llais fel bod rôl pob sefydliad yn glir, neu y gallai ddod yn gymhleth ac yn ddryslyd i'r bobl sy'n cael gwasanaethau.

Croesawodd Myfanwy Moran (Uwch-reolwr, Tîm Arolygu Awdurdodau Lleol, AGC) y corff newydd a dywedodd ei bod wedi cael ei hatgoffa o'r safonau ansawdd o dan adran atal Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r angen i feithrin gwydnwch mewn cymunedau cyn bod angen gofal cymdeithasol ffurfiol ar bobl. Dywedodd fod AGC yn disgwyl gweld strategaethau atal amlasiantaeth amlwg o fewn awdurdodau lleol, a hynny ar y cyd â'r byrddau iechyd a'r trydydd sector, gan ddangos cyfraniad pob asiantaeth.

Cadarnhaodd Rachel Harris (ymarferydd gwasanaeth gofal plant a chwarae) ei bod wedi anfon gwybodaeth am Llais i grŵp Hyrwyddwyr Rhieni yn ardal Wrecsam.

Dywedodd Gillian Baranski (Prif Arolygydd, AGC) ei bod yn ystyried y cyfle hwn fel cyfle go iawn i gynnwys mwy o bobl a chlywed eu safbwyntiau am y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael. Os gallwn gydweithio'n effeithiol, dywedodd y byddai hynny'n creu 'gwerth ychwanegol' gwirioneddol i bobl ledled Cymru.

## Strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar y cyd AGC / AGIC

Cyflwynodd Margaret Rooney y strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar y cyd ddrafft i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac AGC, a gofynnodd i'r aelodau a oeddent yn teimlo ei bod yn cynnwys yr amcanion cywir.

Gan ddefnyddio system raddio o 1 i 5, gydag 1 yn golygu "angen gwaith" a 5 yn golygu "perffaith", pleidleisiodd yr aelodau gan roi gradd gyffredinol o 3.7 allan o 5.

Eglurodd Margaret gefndir y strategaeth a'r penderfyniad i weithio ar y cyd ag AGIC, gan nodi ei fod yn teimlo'n naturiol y dylai'r arolygiaethau gydweithio ar hyn. Dywedodd mai'r bwriad yw cyhoeddi'r strategaeth lawn yn ddiweddarach eleni.

Rhoddodd yr aelodau amrywiaeth o sylwadau defnyddiol am sut y gellid gwella'r amcanion.

Dywedodd Mary Wimbury (Fforwm Gofal Cymru) bod Unigolion Cyfrifol yn garfan amrywiol iawn, o bosibl y grŵp mwyaf amrywiol yn y sector, ac roedd cyfleoedd i ddarparwyr glywed gan ddarparwyr eraill am arferion gorau a gwersi i'w dysgu, gan sicrhau y gall staff o gefndiroedd amrywiol leisio eu barn.

Gofynnodd Claire Protheroe (PACEY Cymru) a oedd y strategaeth hon yn cynnwys gwasanaethau gofal plant a chwarae a phlant yn gyffredinol. Cadarnhaodd Margaret ei bod yn cynnwys y gwasanaethau hynny.

Dywedodd Margaret fod AGC wedi ystyried amrywiaeth y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol pan gafodd ei sefydlu gyntaf.

Awgrymodd Claire Protheroe (PACEY Cymru) y dylai AGC gysylltu â mentoriaid cymunedol – menter gan Lywodraeth Cymru.

Pan ofynnwyd a oedd unrhyw beth ar goll yn yr amcanion hyn, tynnodd yr aelodau sylw at y canlynol:

- cyfeiriad at y sector gofal plant;
- cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ymwneud â'r gweithlu;
- amrywiaeth y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ei hun;
- ac aralleirio'r amcanion er mwyn sicrhau eu bod yn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau.

Tynnodd yr aelodau sylw at bwysigrwydd helpu/cefnogi sefydliadau i weithio'n unol â'r cynllun gweithredu drwy gyfeirio staff ac ymgysylltu â nhw.

**Cam gweithredu:** Diweddaru/diwygio'r strategaeth ddrafft yn seiliedig ar adborth a'i hailddosbarthu i'r aelodau.

## Dogfen defnydd iaith AGC

Cyflwynodd Gillian Baranski (Prif Arolygydd, AGC) ddogfen fewnol a luniwyd yn ddiweddar i AGC sy'n nodi'r derminoleg orau i'w defnyddio wrth ysgrifennu adroddiadau neu ohebiaeth. Mae hefyd yn tynnu sylw at enghreifftiau o derminoleg

sydd wedi dyddio ac sydd o bosibl yn sarhaus, er enghraifft disgrifio pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal fel "defnyddwyr gwasanaethau".

Cafodd ei disgrifio gan Gillian fel dogfen fyw sy'n annog staff AGC i feddwl yn ofalus am yr iaith rydym yn ei defnyddio.

Ymhlith yr awgrymiadau gan yr aelodau, nodwyd y gellid cyfeirio at 'y mwyafrif byd-eang' yn hytrach na phobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Gofynnodd Ruth Hussey, y Cadeirydd a oedd y ddogfen yn gweithio yn Gymraeg. Cadarnhaodd Emma Mackintosh (Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu, AGC) fod cydweithwyr sy'n gweithio ym maes cyfieithu yn Llywodraeth Cymru wrthi'n bwrw golwg arni er mwyn cadarnhau a yw'n gwneud synnwyr.

Gofynnodd Rachel Harris (Ymarferydd gwasanaeth gofal plant a chwarae) sut y bydd AGC yn sicrhau ei bod yn diweddaru'r ddogfen. Dywedodd Gillian y byddai'n cael ei gwirio'n rheolaidd.

## Lleisiau'r sector

Soniodd Claire Protheroe (PACEY Cymru) am yr adolygiad gwarchod plant annibynnol diweddar a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gafodd ei gynnal gan Ymchwil Arad.

Dywedodd Claire fod gwarchodwyr plant wedi wynebu heriau sylweddol yn ystod y pandemig o ran cael cymorth cyflogaeth gan eu bod yn hunangyflogedig, a chyfeiriodd at ostyngiad yn nifer y gwarchodwyr plant newydd yn ogystal â chynnydd yn nifer y bobl sy'n dadgofrestru o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Dywedodd fod y gostyngiad hwn yn bodoli cyn COVID-19.

Holodd Claire tybed a yw cyrff fel PACEY ac AGC, wrth geisio anelu at sicrhau bod gwarchodwyr plant yn cael eu hystyried yn yr un ffordd â gweithwyr gofal plant a gwaith chwarae sesiynol, wedi creu system sy'n rhy feichus ac, o bosibl, bod gormod o fiwrocratiaeth i warchodwyr plant.

Dywedodd Claire os nad yw gwarchodwyr plant yn darparu addysg gynnar Dechrau’n Deg, y byddant o bosibl yn colli plant, a fydd yn mynd i glybiau ysgol a chlybiau brecwast yn lle hynny, a bod angen sicrhau felly bod cyfleoedd wedi'u hariannu ar gael i gefnogi hyfywedd ariannol ehangach yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad yn nodi 23 o argymhellion, ac mae PACEY Cymru wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i nodi'r eitemau â'r brys mwyaf.

Dywedodd Claire fod y sector yn wynebu argyfwng a bod angen cymryd camau cyflym.

Diolchodd Ruth Hussey, y Cadeirydd i Claire am dynnu sylw'r aelodau at y sefyllfa a nododd fod gostyngiad mawr wedi bod yn nifer y gwarchodwyr plant.

Dywedodd Gillian Baranski (Prif Arolygydd, AGC) mai un o'r pethau y bydd prosiect gwella gofal plant a chwarae AGC yn edrych arno fydd a oes gennym y cydbwysedd cywir o ran yr hyn rydym yn ei wneud fel rheoleiddiwr mewn perthynas â gwarchodwyr plant, er mwyn sicrhau ein bod yn ychwanegu'r gwerth mwyaf a bod ein prosesau mor gymesur â phosibl.

Rhoddodd Rachel Harris (Ymarferydd gwasanaeth gofal plant a chwarae) y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y prosiect "Dysgu creadigol yn y blynyddoedd cynnar" roedd ei lleoliad wedi bod yn rhan ohono, ar y cyd â Blynyddoedd Cynnar Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, sy'n estyniad ar y cynllun "Dysgu creadigol mewn ysgolion".

**Cam gweithredu:** Efallai yr hoffai arolygwyr gofal plant a chwarae AGC roi gwybodaeth i leoliadau am sut y gallant gymryd rhan.

## Cynnydd â Chynllun Strategol AGC 2020-2025

Rhoddodd Gillian Baranski (Prif Arolygydd, AGC) y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y cynnydd â'r Cynllun Strategol yn erbyn ei gamau gweithredu a gofynnodd i'r aelodau feddwl ymlaen i'r cynllun nesaf, a gaiff ei lansio ym mis Ebrill 2025, a pha destunau neu feysydd y gallai fod angen eu cynnwys.

Gofynnodd Peter Max a oes cyfle i ofyn am safbwyntiau pobl yn y Gynhadledd Gwasanaethau Cymdeithasol Genedlaethol a gynhelir ym mis Hydref. Cadarnhaodd Gillian y bydd staff o AGC yn bresennol.

Awgrymodd Rachel Harris (Ymarferydd gwasanaeth gofal plant a chwarae) newid mewn hinsawdd a chynaliadwyedd, defnydd ynni a chostau.

Awgrymodd y Cadeirydd, Ruth Hussey Ddeallusrwydd Artiffisial a'r defnydd o robotau mewn gwasanaethau gofal mewn rhai ardaloedd o'r byd, gan y gallai'r broses o reoleiddio a darparu gofal newid yn ystod ffrâm amser y Cynllun Strategol nesaf. Awgrymodd y dylid rhoi prosesau sganio'r gorwel ar waith er mwyn paratoi ar gyfer heriau yn y dyfodol.

Awgrymodd Myfanwy Moran (Uwch-reolwr, Tîm Arolygu Awdurdodau Lleol, AGC) fod hyfforddi'r gweithlu yn y dyfodol yn bwnc llosg.

Dywedodd Gillian fod angen i AGC ganolbwyntio ar y pethau mai dim ond ni sy'n gallu eu gwneud, gan weithio mewn partneriaeth ag eraill a meddwl mewn ffordd mor greadigol â phosibl am atebion. Dywedodd fod angen canolbwyntio ar y camau gweithredu â blaenoriaeth.

Dywedodd Margaret Rooney (Dirprwy Brif Arolygydd, AGC) fod dull prosiect gwella gofal plant a chwarae AGC yn cynnig dull peilot i feysydd gwaith eraill AGC.

## Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth (PAN) – eich safbwyntiau?

Gofynnodd Sarah Glynn Jones (Pennaeth y Tîm Arolygu Gwasanaethau Oedolion a Phlant) i'r aelodau am eu barn ar yr adrannau o'n hadroddiadau arolygu sy'n disgrifio Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth neu Feysydd i'w Gwella a gyflwynir i ddarparwyr gofal fel rhan o'u harolygiad.

Gwnaeth yr aelodau nifer o awgrymiadau ac ymholiadau defnyddiol.

Dywedodd Sarah y byddai'n sefydlu grwpiau ymgynghori yn cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau neu eu ffrindiau/perthnasau i edrych ar ein hadroddiadau arolygu ac y byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y broses hon.

**Cyfarfod nesaf: 4 Hydref 2023**